

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Yn cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

Cyfres polisiau enghreifftiol

10. Polisi Diogelu Enghreifftiol



Dylai pob mudiad sy'n gweithio gyda grwpiau agored i niwed; plant neu bobl hŷn a all fod mewn perygl, roi polisi diogelu yn ei le yn datgan sut maent yn bwriadu cadw'r bobl hynny'n ddiogel. Er y gall templed fod yn fan cychwyn da, mae'n bwysig bod eich polisi eich hun yn adlewyrchu'r hyn mae'ch mudiad yn ei wneud, â phwy rydych yn gweithio a sut rydych yn gwneud yr hyn rydych yn ei wneud. Ni ddylech ond ymrwymo i weithdrefnau y gallwch eu cyflawni, ac unwaith mae'r polisi yn ei le, rhaid ei weithredu fel y'i hysgrifennwyd. Sicrhewch ei fod yn dweud yr hyn y bwriadwch iddo ddweud, a'ch bod wedyn yn ei roi ar waith.

Datganiad cenhadaeth

Dylai hwn ddatgan yn glir ymrwymiad eich mudiad i gadw pobl yn ddiogel a dangos ymwybyddiaeth o bethau penodol a all wneud defnyddwyr eich gwasanaeth yn agored i niwed a sut y byddech yn ymateb er mwyn eu cadw'n ddiogel.

Enghraifft: Yn ein gwaith gyda phlant / pobl ifanc / oedolion a all fod dan risg oherwydd oedran, salwch neu anabledd, bydd _____ (mudiad) yn ymdrechu drwy'r adeg i ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau sy'n lleihau risg ac sydd mor ddiogel ag y gallwn eu gwneud.

Anelwn at warchod defnyddwyr ein gwasanaeth rhag niwed neu gamdriniaeth, atal amhariaeth ar iechyd neu ddatblygiad, sicrhau darpariaeth gofal diogel ac effeithiol, hyrwyddo cyfleoedd bywyd pobl a sicrhau bod plant yn tyfu'n oedolion yn llwyddiannus.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau lleol / cenedlaethol eraill i roi gweithdrefnau priodol yn eu lle ar gyfer adrodd, gwneud atgyfeiriadau, cael mynediad at hyfforddiant ac at gymorth arbenigol, pan fo angen.

Recriwtio diogelach

Mae'n bwysig bod eich mudiad yn defnyddio gweithdrefnau clir a theg i recriwtio pob aelod o staff a phob gwirfoddolwr. Gellir gwneud cais am wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) pan fyddwch yn cynnig swydd i ymgeisydd er mwyn darparu gwybodaeth gefndirol am yr ymgeisydd. Gallwch hefyd roi mesurau diogelu eraill ar waith unwaith mae'r unigolyn yn dechrau gweithio.

Enghraifft: I wneud hyn, bydd _____ yn mynd ati i recriwtio gan ddefnyddio gweithdrefnau, mesurau diogelu a gwiriadau priodol.

Byddwn yn gofyn am eirdaon ar gyfer pob swydd a rôl wirfoddol cyn penodi. Byddwn yn defnyddio gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) i'n cynorthwyo i asesu addasrwydd a phan fo cymhwysedd i wneud hynny drwy bennu pa rolau sy'n weithgaredd rheoledig ac sydd felly'n destun gwiriad o'r rhestrau gwahardd a'r rolau hynny sy'n gymwys ar gyfer gwiriad GDG yn unig. Byddwn yn asesu unrhyw wybodaeth am gofnod troseddol a ddatgelir yn unol â'n polisiau diogelu data a chydraddoldebau (trin cyn-droseddwr yn deg).

Byddwn yn darparu rhaglen ymsefydlu i bob gwirfoddolwr ac aelod o staff newydd, hyfforddiant priodol i alluogi pob gwirfoddolwr ac aelod o staff i gyflawni eu dyletswyddau'n ddiogel ac yn hyderus, a hyfforddiant parhaus er lles datblygiad personol a phroffesiynol unigolion a datblygiad ein mudiad.

Byddwn yn adolygu ein gweithdrefnau recriwtio'n rheolaidd mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaethau a systemau allanol i'n mudiad e.e. gwiriadau GDG a gwiriadau o'r rhestrau gwahardd.

Gwirfoddolwyr

Mae'n bwysig bod pob gwirfoddolwr yn cael ei drin yn deg, yn cael disgwyliadau clir o'i rôl yn y mudiad ac yn cael ei gefnogi i gyflawni'r rôl honno.

Enghraifft: Bydd Cydlynnydd / Cefnogwr Gwirfoddolwyr yn cefnogi pob rôl wirfoddol.

Bydd gwirfoddolwyr yn cael eu trin yn gyfartal ochr yn ochr ag unrhyw staff cyflogedig, a bydd pob gwirfoddolwr yn cael cynnig yr un cyfleoedd o ran datblygiad, cyfrifoldeb, hyfforddiant ac ennill cymwysterau, a chydabyddiaeth am eu cyfraniad at ein mudiad. Yn eu tro, bydd ein gwirfoddolwyr yn cadw at y Cod Ymddygiad bob adeg wrth gynrychioli ein mudiad.

Bydd unrhyw rolau gwirfoddol, a fyddai'n weithgaredd rheoledig heb oruchwyliaeth, yn cael eu goruchwyllo'n briodol yn unol â chanllawiau statudol.

Swyddog Diogelu

Mae penodi ac enwi swyddog diogelu a dirprwy yn dangos ymrwymiad eich mudiad i ddiogelu. Maent yn darparu rôl bwysig yn cefnogi defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr eraill. Gall y rôl ymddangos yn frawychus felly mae cymorth i'r ddau swyddog, i'w gilydd a chan yr ymddiriedolwyr, yn hanfodol.

Enghraifft: Ein Swyddog Diogelu penodedig yw _____ (enw) o _____ (dyddiad) ac fe'i cefnogir gan _____ (enw) fel dirprwy, a fydd ar gael i'r holl aelodau o staff, gwirfoddolwyr a defnyddwyr gwasanaethau i drafod unrhyw bryderon, materion neu gwynion sydd ganddynt ynghylch diogelwch, lles neu ymddygiad defnyddwyr gwasanaethau, gwirfoddolwyr a staff.

Bydd gan y swyddog diogelu a'r dirprwy fynediad at hyfforddiant priodol i'w cefnogi yn y rolau hyn. Byddant yn cysylltu ag asiantaethau lleol a chenedlaethol priodol, yn cyfrannu at bolisiâu priodol, yn cynnal cofnodion ac yn cadw cyfrinachedd, yn cadw at y polisi hwn ac yn ei hyrwyddo yn y mudiad, ac yn darparu cymorth neu fynediad at gymorth ar gyfer unigolion sy'n dioddef niwed neu gamdriniaeth.

Ymwybyddiaeth o niwed a chamdriniaeth yn ein mudiad

Dangos dealltwriaeth o niwed a chamdriniaeth, a dyletswydd gyfreithiol i weithredu os yw'n digwydd yn eich mudiad.

Enghraifft: Achosir niwed gan ddamweiniau, camdriniaeth fwriadol (corfforol, rhywiol, emosiynol, ariannol), esgeulustod (bwriadol ai peidio) neu ffactorau megis bwlio, agweddau rhagfarnus neu fethiant i alluogi *unigolyn* i gyfranogi mewn gweithgareddau sy'n agored i'r mwyafrif o'i gyfoedion.

Rhaid ymateb yn briodol i bob achos o niwed i unrhyw un sydd â chysylltiad â'n gwasanaeth er mwyn lleihau risgiau a gwella ein gwasanaeth.

Mae gweithredoedd bwriadol o niwed (corfforol, rhywiol, emosiynol ac ariannol) ac esgeulustod yn gamdriniaeth yn erbyn yr unigolyn a byddant yn destun camau disgyblu, yn ogystal ag adroddiadau ac atgyfeiriadau at y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, cyrff proffesiynol eraill a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) os mewn gweithgaredd rheoledig.

Niwed sylweddol

Niwed sylweddol yw'r pwynt derbyniol pan fo'n briodol atgyfeirio'r sefyllfa at asiantaethau statudol. Gall y niwed ddigwydd dros sawl digwyddiad neu gall fod yn ddigwyddiad sengl, difrifol. Mae'n well gofyn am gyngor na gwneud dim. Nid oes ddyletswydd ar neb yn eich mudiad i benderfynu a oes camdriniaeth wedi digwydd, dim ond ei adrodd i'r asiantaethau statudol, sydd â dyletswydd i ymchwilio i'r mater.

Enghraifft: Pan fo risg o niwed sylweddol i ddefnyddwyr ein gwasanaeth, ein gwirfoddolwyr neu'n staff, mae gan y Swyddog Diogelu a'r dirprwy y grym i weithredu'n unol â hynny.

- Cofnodi pob trafodaeth ynglŷn â'r mater
- Llofnodi a gofyn am lofnodion ar adroddiadau a datganiadau
- Gofyn am gyngor yn gyfrinachol o ffynonellau arbenigol
- Rhannu pryderon (gyda chydsyniad pan fo'n angenrheidiol ac yn briodol) yn fewnol ag uwch aelodau o staff / Cadeirydd y Bwrdd
- Rhannu pryderon a gwneud atgyfeiriadau at asiantaethau allanol fel y Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Heddlu neu'r NSPCC fel sy'n briodol yn yr amgylchiadau
- Gwneud atgyfeiriad at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ynglŷn â staff neu wirfoddolwr mewn gweithgaredd rheoledig y mae ei ymddygiad yn

niweidiol i ddefnyddwyr gwasanaethau a phan gaiff ei dynnu o weithgaredd rheoledig

Cyfrinachedd

Does dim byd mewn deddfwriaeth sy'n dweud na ellir rhannu gwybodaeth berthnasol mewn modd synhwyrol er mwyn atal niwed i unigolion neu gynorthwyo i atal neu ddatgelu trosedd.

Dylid cadw gwybodaeth bersonol am bob aelod o staff, gwirfoddolwr a defnyddiwr gwasanaeth yn ddiogel ac ni ddylid ei rhannu onid oes rheswm i wneud hynny. Dylai aelodau o staff a gwirfoddolwyr ddeall na ddylid trafod y tu allan i'r mudiad unrhyw wybodaeth bersonol maent yn ei dysgu am ddefnyddwyr gwasanaethau yn ystod eu gwaith.

Enghraifft: Bydd pob adroddiad a chofnod (gan gynnwys cofnodion staff a gwirfoddolwyr) yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn gyfrinachol yn unol â'n polisi diogelu data a'n datganiad cyfrinachedd, neu'n unol â Chod Ymarfer y GDG os yw'n briodol, hyd nes neu onid yw'n angenrheidiol i rannu'r deunydd hwn â'r asiantaethau a enwir uchod. Bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu ar sail "angen gwybod" yn unig.

Cyfathrebu

Mae'n hanfodol cynllunio a pharatoi at rannu gwybodaeth yn briodol yn y mudiad a'r tu hwnt. Gall staff a defnyddwyr gwasanaethau, neu eu teuluoedd, fod â thrafferthion cyfathrebu, siarad ieithoedd heblaw am Gymraeg neu Saesneg, neu fethu â chlywed, gweld, darllen, siarad, ac yn y blaen. Dylai pawb wybod bod ganddynt yr hawl i godi llais am bethau sy'n eu pryderu.

Mae gan y mudiad ddyletswydd i gyfathrebu ag asiantaethau eraill, cefnogi defnyddwyr ei gwasanaeth yn y modd gorau posib a chyflawni ei gyfrifoldebau diogelu/gwarchod.

Enghraifft: Byddwn yn cyfathrebu'r polisi hwn i bob aelod o staff, gwirfoddolwr, defnyddiwr gwasanaeth a'u teuluoedd / gofalwyr, gan ddefnyddio dulliau, ffurfiau ac iaith briodol i gyfleu'r neges.

Rydym yn cefnogi ac yn annog pob defnyddiwr, gwirfoddolwr ac aelod o staff i godi llais a chysylltu â'r Swyddog Diogelu neu'r dirprwy pan fo

- *pryder* (gofid, mater neu amheuaeth ynghylch arferion neu driniaeth defnyddiwr neu gydweithiwr, neu eu hamgylchiadau), *neu*
- *amlygiad* (gwybodaeth am unigolion dan berygl o niwed sylweddol, neu sy'n dioddef niwed sylweddol) *neu*
- *honiad* (y posibilrwydd y gallai gwirfoddolwr neu aelod o staff achosi niwed i unigolyn yn eu gofal)

Gall staff neu wirfoddolwyr adrodd pethau sydd ddim yn iawn, sy'n anghyfreithlon neu os yw unrhyw un yn y gweithle'n esgeuluso ei ddyletswyddau, yn rhoi iechyd a diogelwch rhywun mewn perygl neu'n cuddio drygioni. Yn y lle cyntaf dylent

siarad â'r Swyddog Diogelu, ei ddirprwy neu'r ymddiriedolwr sydd â'r cyfrifoldeb priodol (enw).

Byddai'n well gennym i'n haelodau, ein gwirfoddolwyr a'n staff ddefnyddio prosesau mewnol pan fo'n bosib i adrodd fel yr uchod, ond nid yw hyn yn eu hatal rhag adrodd neu atgyfeirio at asiantaethau statudol fel y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu, drwy eu hawl eu hunain fel unigolyn preifat. Rydym hefyd yn cefnogi ein staff neu'n gwirfoddolwyr i godi pryderon neu ddatgelu gwybodaeth, y maent yn credu sy'n dangos camymddygiad – chwythu'r chwiban (datgelu er lles cyhoeddus).

Er mwyn annog pawb sydd â chysylltiad â'n mudiad i ddeall bod diogelu yn fater i bawb, byddwn yn: cynnal fforymau / rhoi'r mater ar agenda cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr / darparu cyfleoedd i drafod materion a phryderon, polisi a gweithdrefnau i adlewyrchu, adolygu a pharhau i ddysgu a gwella yn ein cyfrifoldebau diogelu.

Dylai'ch Cadeirydd lofnodi a dyddio'ch polisi diogelu ar ôl i'ch bwrdd/pwyllgor ei gymeradwyo a'i dderbyn. Mae'n syniad da gosod dyddiad i'w adolygu, gan y gall polisiau allanol newid yn gyflym a dylid diweddarau'ch polisi mewnol yn unol â hynny. Rhannwch y polisi â'ch staff a defnyddwyr eich gwasanaeth; efallai y gallech ddarparu crynodeb neu fersiwn hawdd ei darllen. Bydd llawer o gyllidwyr hefyd yn gofyn a oes gennych bolisi o'r fath fel rhan o gais am gyllid.


Cyfeiriadau a dolenni

[Wales Interim Policy and Procedures for the Protection of Vulnerable Adults from Abuse](#) (Tachwedd 2010, diweddarau Ionawr 2013)

[Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd](#)

[WASPI](#)

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

<p>Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru <i>Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH</i></p> <p>Ffôn: 0800 2888 329 help@wcva.org.uk Ffacs: 029 2043 1701 www.wcva.org.uk</p>	 <p>Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action</p> <p>Ffôn: 0800 2888 329 www.wcva.org.uk</p>
<p>Cynhyrchwyd gan WCVA, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli Rhagfyr 2016</p>	